

# Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

## Dadansoddwr Trawsnewid Data TG a System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS)

Pecyn Recriwtio

# Croeso gan y Pennaeth Gwasanaeth



MARK MCNAMARA
PENNAETH GWASANAETH ACGCC

Yn yr ACGCC rydym yn helpu i greu rhwydwaith ffyrdd sy'n cysylltu pobl a lleoedd mewn modd mwy diogel,  a mwy dibynadwy.

Rydym yn gweithio ar brosiectau ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru sy'n mynd i'r afael â rhai o heriau mwyaf tyngedfennol y wlad. O seilwaith cymhleth, cynyddu anghenion trafnidiaeth, a newid yn yr hinsawdd – rydyn ni'n cyfuno arloesi, arbenigedd a thechnoleg i wneud Gogledd a Chanolbarth Cymru yn lle gwell i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.

Gallwch gyfrannu at waith fydd yn cael effaith gadarnhaol barhaol ar eich cymuned leol gyda sefydliad lle mae amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant yn werthoedd a rennir. Rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd gwaith sy'n gefnogol, yn barchus ac yn gynhwysol, gyda chyfleoedd gwych ar gyfer twf.

Beth am roi cynnig arni? Byddem yn hapus iawn i ystyried eich cais i ymuno â'n tîm medrus, brwdfrydig a chyfeillgar.

# Ble rydym wedi'n lleoli

## Dros 250 o weithwyr ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru.

- **Aberaeron, Ceredigion**
- **Bangor, Gwynedd**
- **Conwy**
- **Dolgellau, Gwynedd**
- **Helygain, Wrecsam**
- **Llandrindod, Powys**
- **Drenewydd, Powys**





# Teitl y swydd: Dadansoddwr Trawsnewid Data TG a System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS)

Ydych chi'n mwynhau her ac yn hoffi amrywiaeth?  Os felly, yna efallai mai'r swydd hon yw'r peth i chi.  Rydym yn chwilio am **Dadansoddwr Trawsnewid Data TG a System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS)** i ymuno â thîm cyffrous sy'n tyfu.

**Cyflog:** PS1 (SCP 29-31) £37,336 - £39,186

**Cyfnod:** Parhaol

**Lleoliad:** **un o'r lleoliadau isod:**
Conwy, Bangor, Llandrindod, Helygain, DreNewydd

**Dyddiad cau:** 11/07/2024

**Ffurflenni cais a manylion pellach ar gael trwy wefan Cyngor Gwynedd www.gwynedd.llyw.cymru neu drwy ffonio 01286 679076.**

**Ymgeisiwch**

# Pwrpas y swydd

Fel Dadansoddwr Trawsnewid Data TG a System Gwybodaeth Ddaearyddol, byddwch yn gyfrifol am ddylunio, datblygu, profi a gweithredu systemau rheoli data gofodol i gefnogi gweithrediadau'r Asiantaeth. Byddwch yn cydweithio â thimau traws-swyddogaethol i integreiddio data GIS i systemau TG ariannol a gweithredol a dadansoddi setiau data geogyfeiriol i gynhyrchu adroddiadau craff ar gyfer uwch reolwyr, gan hwyluso gwneud penderfyniadau strategol.

Yn ogystal, byddwch yn cynnal glanhau data, cynnal a chadw, a dadansoddi setiau data stocrestr asedau sy'n ymwneud â'n rhwydwaith ffyrdd strategol. Byddwch yn rhoi atebion ar waith gan ddefnyddio arferion gorau'r diwydiant, gan sicrhau datblygiad systemau TG gofodol a diogelwch a chyfrinachedd data sensitif at y dyfodol. Mae darparu cymorth i dimau mewnol ac allanol wrth ddatblygu datrysiadau TG a chyflawni amcanion o fewn terfynau amser a chyllidebau y cytunwyd arnynt hefyd yn agweddau allweddol ar y rôl hon.



# Cyfrifoldebau

- Bod yn gyfrifol am ddylunio, datblygu, profi, gweithredu, cynnal a chofnodi systemau rheoli data gofodol ar gyfer yr Asiantaeth. Gyda chymorth gan eraill, bydd angen cysylltu data GIS â systemau rheoli ariannol a systemau TG gweithredol, a lle bo hynny'n berthnasol, caffael gwasanaethau ac offer cysylltiedig.

- Llunio adroddiadau cysylltiedig drwy wybodaeth arbenigol am setiau data geogyfeiriol a'u hadnoddau dadansoddi o fewn systemau rheoli gofodol a'u cyflwyno i uwch reolwyr yr Asiantaeth i gynorthwyo yn y broses o wneud penderfyniadau.

- Bod yn gyfrifol am lanhau data, cynnal a dadansoddi setiau data stocrestr asedau amrywiol sy'n gysylltiedig â'r rhwydwaith ffyrdd strategol fel draenio, materion amgylcheddol ac ati.

- Creu atebion gan ddefnyddio'r arferion gorau a chynnal gwybodaeth am yr arferion gorau cyfredol.

- Dylunio a gweithredu systemau TG gofodol, offer a data a gedwir, gan sicrhau bod atebion yn cael eu datblygu mewn modd sy'n diogelu at y dyfodol.

- Diogelwch data masnachol neu unrhyw ddata sensitif ac offer TG ffisegol.

- Cynorthwyo timau mewnol ac allanol i ddatblygu atebion TG.

- Cyflawni amcanion o fewn amserlenni a chyllidebau y cytunwyd arnynt.

- Bod yn gyfrifol am offer TG arbenigol a thrwyddedu meddalwedd.

- Datblygu a chynnal unrhyw System Reoli bresennol ac yn y dyfodol.

- Bod yn gyfrifol am reoli prosiectau systemau. Cynnwys cynhyrchu ac adolygu manylebau technegol.

- Bod yn gyfrifol am gynhyrchu lunio a gweithredu polisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â systemau newydd a'u gweithrediad.

- Llunio a gweithredu polisïau a gweithdrefnau ar gyfer atebion sy'n cael eu gweithredu.

- Hyrwyddo hunan-ddysgu yn y sefydliad drwy ddarparu hyfforddiant i ddefnyddwyr ar ddefnyddio systemau TG a rheoli data arbenigol.



## Dylech gyfeirio at y meini prawf penodol i'r swydd hon yn eich ffurflen gais.

## Meini prawf penodol i’r swydd

- Gallu defnyddio amrywiaeth o feddalwedd yn gyfforddus, neu ddysgu’n gyflym sut i’w defnyddio, yn ogystal â systemau a rhyngwynebau eraill.
- Gallu esbonio problemau ac atebion yn glir i staff annhechnegol.
- Gallu ymdrin â phroblemau yn rhesymegol a defnyddio tystiolaeth i ddod o hyd i atebion neu argymhellion
- Gallu ymgymryd â gwaith o natur gymhleth ac amrywiol.
- Craff, a dawn dechnegol.
- Meddu ar sgiliau cyfathrebu rhagorol er mwyn darparu cefnogaeth a hyfforddiant ar faterion technegol yn effeithiol gyda staff a defnyddwyr eraill.

## Cymwysterau a hyfforddiant perthnasol

Tystiolaeth helaeth o ddysgu a datblygu proffesiynol parhaus sy’n gysylltiedig â GIS.

## Profiad perthnasol

- Profiad helaeth o weithio mewn amgylchedd GIS proffesiynol.
- Profiad o wneud gwaith dadansoddol, datrys problemau i gynorthwyo gyda dylunio a defnyddio systemau, yn ogystal â meddu ar sgiliau beirniadol a chreadigol.
- Profiad o ddylunio a chynnal a chadw systemau rheoli ar safle neu ar y cwmwl.
- Profiad o hyrwyddo'r defnydd o dechnoleg ddigidol i wella rhyngweithio/gwybodaeth, prosesau ac arloesedd gweithwyr.
- Profiad o ddigideiddio gwybodaeth er mwyn gwella effeithlonrwydd a galluogi awtomeiddio.
- Profiad o weithio mewn amgylchedd cefnogol wrth ddarparu cymorth i gwsmeriaid.

## Sgiliau a gwybodaeth arbenigol

- Dealltwriaeth ddatblygedig o lwyfannau, offer a dadansoddiadau GIS.
- Dealltwriaeth drylwyr o ddiogelwch data.

## Gofynion ieithyddol

Mae’r gallu i siarad Saesneg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon

# Gweithio i  Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

Mae ACGCC yn lle cyffrous i weithio.  Mae gennym bolisïau blaengar a rydym wedi ymrwymo i hyfforddi a



- 26 dyddiau o wyliau blynyddol y flwyddyn.
- 8.5 diwrnod o wyliau cyhoeddus a statudol.
- Gweithio’n hybrid o leiaf 2 ddiwrnod yn y swyddfa.
- Oriau gweithio hyblyg.



- Cyflog cynyddol.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Ceir rhagor o  wybodaeth ar  wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd.



- Cyfle i weithio mewn lleoliadau prydferth ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru gan gynnwys 1 parc cenedlaethol, 50 gwarchodfa natur a 1,680 milltir o arfordir trawiadol



- Cynlluniau cymorth i brynu car ac i feicio i’r gwaith
  Arbediadau siopa bwyd, gwyliau, mynd allan i fwyta, DIY, offer trydanol, yswiriant, moduro, a llawer mwy!



- Ystod eang o gyfleoedd hyfforddi a datblygu mewnol ac allanol.
- Diwrnod yr wythnos i gwblhau gradd prifysgol.
- Cyfraniad tuag at aelodaeth o gyrff proffesiynol sy'n berthnasol i'r gwaith



- Gwasanaeth Cwnsela MEDRA - gwasanaeth cwnsela cyfrinachol am ddim i staff.
- Absenoldeb hael ar gyfer mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu.